

Hysbysiad Preifatrwydd - Darpariaeth Gwasanaeth

Darperir yr hysbysiad hwn i egluro pa wybodaeth mae'r Cyngor ei hangen er mwyn prosesu ceisiadau ar gyfer **Derbyniadau i Ysgolion**. Mae angen i'r Cyngor gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd unigolion ar hyd y broses yma.

Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?

Caiff pob gwybodaeth bersonol ei dal gan a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael gwybodaeth ar rôl y Rheolydd Data, y Swyddog Diogelu Data a Manylion Cyswllt y Cyngor, gweler y dudalen 'Diogelu Data' ar wefan y Cyngor:

<https://blaenau-gwent.gov.uk/en/Council/data-protection-foi/data-protection-act/>

Pa wybodaeth ydyn ni ei hangen?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth amdanoch chi, ac os oes angen, eich teulu a phartïon eraill. Bydd yr wybodaeth yma'n cynnwys:

- Manylion amdanoch fel eich **enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni;**
- Gwybodaeth berthnasol arall sydd ei hangen i brosesu eich cais, fel disgrifiad o'r gwasanaeth sydd ei angen.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i brosesu eich cais a/neu weinyddu'r gweithredu angenrheidiol. Gallwn wirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill i sicrhau fod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir.

Pam ydyn ni angen eich gwybodaeth?

Mae'r Cyngor angen yr wybodaeth yma er mwyn darparu'r gwasanaethau y gofynnwch amdanynt ac i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu'r wybodaeth?

I alluogi'r Cyngor i brosesu eich cais a chydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau partner yn cynnwys:

- Ysgolion;**
- Darparwyr gofal cymdeithasol;**
- Llywodraeth Cymru;**
- Archwilwyr;**
- Awdurdodau cyfagos;**

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer diben cyflawni unrhyw un neu rai o'i ddyletswyddau gorfodaeth statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sydd eu hangen gan y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus.

Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Dim ond cyhyd ag sydd angen y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth. Gellir cael manylion llawn am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich gwybodaeth drwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau rydych eu hangen. Canolfan gyswllt y Cyngor: info@blaenau-gwent.gov.uk / 01495 311556.

Darparu gwybodaeth gywir

Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth gywir a chyfredol amdanoch er mwyn asesu eich anghenion a darparu'r gwasanaethau priodol. Os oes unrhyw rai o'ch manylion wedi newid, neu y byddant yn newid yn y dyfodol, gofynnir i chi ein hysbysu cyn gynted ag sydd modd fel y gallwn ddiweddarau eich cofnodion.

Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd

Mae rhai penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifiadur gan fod y Cyngor yn defnyddio systemau awtomataidd i gefnogi ei wasanaethau. Os caiff eich data personol ei brosesu drwy ddulliau awtomataidd, cewch eich hysbysu am y canlyniadau a chrynodeb o'r meini prawf a ddefnyddiwyd yn y broses yma. Mae'r canlyniadau yn amodol ar benderfyniad terfynol gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol.